Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM

Gweinyddiaeth Cyfiawnder

Cynllun Ad-daliad

# Cais am ad-daliad llawn neu rannol o ffioedd 'Anafiadau Personol Gwerth Isel (LVPI) Rhan 8, Cam 3' - Dogfen ganllaw

## Beth yw ffioedd LVPI Rhan 8, Cam 3?

Mae hawliadau LVPI Rhan 8, Cam 3 yn ymwneud â 'Hawliadau Anafiadau Personol Gwerth Isel mewn perthynas â Damweiniau Traffig y Ffordd' a 'Hawliadau Anafiadau Personol Gwerth Isel (Atebolrwydd Cyflogwr ac Atebolrwydd Cyhoeddus)'. Caiff yr hawliadau hyn eu cychwyn ar 'Porth MoJ' a gallwch fynd iddo drwy glicio ar y ddolen ganlynol: https://www.claimsportal.org.uk

Mae'r mwyafrif helaeth o hawliadau sy'n cael eu cychwyn ar y Porth yn cael eu datrys yn ystod Cam Cyn Gweithredu 1 neu 2. Fodd bynnag, ar gyfer y rhai hynny nad ydynt, caiff yr hawliad ei gychwyn yn y llys sirol - a elwir yn Cam 3.

Gyda hawliadau Cam 3, mae un o'r partïon wedi cyfaddef mai nhw oedd ar fai (atebolrwydd) ac felly nid yw'r hawliadau hyn yn dilyn y llwybr hawlio arian 'traddodiadol' sy'n gofyn am amddiffyniad, Holiadur Cyfarwyddiadau, treial ayb. Yn hytrach, bydd yr hawliad yn cael ei gychwyn yn y Llys Sirol dan weithdrefn Rhan 8.

## Pam yr ydym yn ad-dalu ffioedd LVPI Rhan 8, Cam 3?

Rydym wedi adolygu'r ffordd yr ydym yn codi ffioedd. Daeth i'r amlwg bod rhai ffioedd LVPI Rhan 8, Cam 3:

- Yn anghywir: hynny yw, rydym wedi codi'r ffi anghywir neu ni ddylem fod wedi codi tâl arnoch o gwbl.

## Pa ffioedd yr ydym yn eu had-dalu?

Mae yna restr o'r ffioedd lle codwyd y ffi anghywir arnoch ar dudalen 4 o'r ddogfen hon. Dim ond os ydych wedi talu un neu fwy o'r ffioedd a restrir isod rhwng 1 Ebrill 2018 a 30 Ebrill 2018 y gallwch hawlio ad-daliad. Mae'r tabl yn nodi union swm yr ad-daliad a allai fod yn ddyledus i chi.


©Hawlfraint y Goron 2020

## A allaf hawlio ad-daliad pe bawn i, neu fy nghleient, wedi gwneud cais o dan y cynllun Help i Dalu Ffioedd?

Weithiau, gelwir Help i Dalu Ffioedd yn 'Dileu Ffi'.

Os gwnaethoch chi, neu'ch cleient, ddefnyddio Help i Dalu Ffioedd, dim ond y swm a dalwyd y gallwch ei hawlio. Er enghraifft:

Ffi i'w thalu £10

Help i Dalu Ffioedd £6

Gwnaethoch chi dalu £4

Gallwch hawlio hyd at £4 yn dibynnu ar yr ad-daliad sy'n ddyledus

Ni allwch hawlio ad-daliad os cafodd y ffi ei dileu'n llwyr ac nid oedd rhaid i chi dalu'r ffi o gwbl.

## A fydda i'n cael llog ar fy ad-daliad?

Bydd llog ar unrhyw ad-daliadau yn cael ei dalu ar gyfradd unffurf o 0.5%. Byddwn yn cyfrifo'r llog ar eich cyfer ac yn ei ychwanegu at eich ad-daliad.

## Sut ydw i'n gwneud cais am ad-daliad?

Mae'n rhaid i chi wneud cais am ad-daliad gan ddefnyddio'r ffurflen a elwir yn 'Cais am Ad-daliad o Ffioedd 'Anafiadau Personol Gwerth Isel (LVPI) Rhan 8, Cam 3'

Rhaid defnyddio'r ffurflen hon i gyflwyno pob cais, neu'r templed ar gyfer hawliadau swmp.

Os na allwch ddod o hyd i'r ffurflen gais, cysylltwch â'r ddesg gymorth ar 0300 3035174. Gallwch ofyn i gopi o'r ffurflen gais a'r ddogfen ganllaw gael eu hanfon atoch drwy'r post.

Efallai na fydd gofyn i chi lenwi'r ffurflen i gyd. Darllenwch bob adran yn ofalus a gwnewch yn siŵr eich bod yn ateb pob cwestiwn sy'n berthnasol i chi. Os caiff rhai o'r meysydd gofynnol eu gadael yn wag, gallai achosi oedi ac efallai y bydd rhaid i chi anfon ffurflen newydd.

Os ydych yn gwneud cais ar ran ystâd rhywun, dylech gynnwys eich manylion chi yn adran 1.1 ac 1.2 a manylion yr ymadawedig yn adran 2.4

Os ydych yn llenwi'r ffurflen hon â llaw, defnyddiwch LYTHRENNAU BRAS os gwelwch yn dda.


## A allaf hawlio ad-daliad ar gyfer nifer o achosion gwahanol ar yr un pryd?

Gallwch ddefnyddio'r templed ar gyfer hawliadau swmp i wneud cais am ad-daliad ar gyfer hyd at 25 o achosion. Sicrhewch eich bod yn cwblhau pob un o'r meysydd gofynnol ar y templed ar gyfer hawliadau swmp.

**SYLWCH:** Rhaid i maint yr e-bost, gan gynnwys unrhyw atodiadau, fod yn llai na 10mb.

**Gellir anfon ceisiadau drwy'r post neu e-bost. Ewch i dudalen 9 y ffurflen gais i gael manylion ar sut i anfon eich cais.**

Mae'r ffeithlun hwn yn dangos y camau y mae'n rhaid eu dilyn i gyflwyno'ch cais:




## Faint o amser fydd hi'n gymryd i brosesu fy nghais?

Byddwn yn ceisio prosesu eich cais o fewn 20 diwrnod gwaith o'r diwrnod y bydd eich ffurflen yn ein cyrraedd. Er mwyn sicrhau y gallwn brosesu eich cais mor gyflym ac mor effeithlon â phosibl, gofynnir i chi gynnwys:

- Tystiolaeth - os yw gennych, o werth yr hawliad pan gafodd ei gychwyn.
  Er enghraifft: gall hyn fod yn ffurflen hawlio neu yn llythyr eglurhaol. Dylech hefyd gynnwys copi o'ch hysbysiad cychwyn.

Byddwn yn cysylltu â chi os oes rhywbeth o'i le ar eich cais neu os byddwn angen rhagor o wybodaeth gennych.

## Pan fyddwch yn cael taliad

Byddwch yn cael eich taliad trwy BACS, fel siec neu bydd yn cael ei dalu i'r Cyfrif Ffioedd/cyfrif PBA o'ch dewis chi, yn ôl yr wybodaeth rydych wedi'i darparu ar eich ffurflen gais.

Bydd yr hysbysiad talu yn cael ei anfon gan gyfeiriad e-bost 'do not reply' oddi wrth ein darparwr, Liberata. Bydd pwnc yr e-bost yn dweud: 'auto.reporting@liberata.com'. Gwnewch yn siŵr eich bod yn arbed y cyfeiriad e-bost hwn fel 'safe sender' i wneud yn siŵr y bydd yr e-bost yn eich cyrraedd. Os nad ydych wedi cael e-bost, rydym yn awgrymu eich bod yn gwirio eich ffolder *junk*.

Bydd yr e-bost yn cynnwys atodiad; dogfen PDF gyda phennawd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM (GLlTEM).

## Gallwch wneud cais am ad-daliadau am y ffioedd canlynol:

## Ffioedd lle y bu ichi dalu gormod

Mae'r tabl hwn yn dangos y rhestr o ffioedd LVPI Rhan 8, Cam 3 lle'r ydych wedi talu gormod ac uchafswm swm yr ad-daliad y gallwch ei hawlio (heb gynnwys llog). Bydd yr union swm y byddwch yn ei gael yn dibynnu ar a gawsoch unrhyw gymorth gyda'ch ffioedd - dileu ffi.

| **Cod y ffi a gam-ddyfynnwyd** | **Cod y ffi gywir** | **Amgylchiadau** | | **Uchafswm ad-daliad rhwng 1 Ebrill 2014 a 24 Gorffennaf 2016** | **Uchafswm ad-daliad rhwng 25 Gorffennaf 2016 a 1 Ebrill 2018** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ffioedd Achosion Sifil** | | Rhwng **1 Ebrill 2014 a 24 Gorffennaf 2016** fe wnaethoch chi dalu ffi o £280, **neu** Rhwng **25 Gorffennaf 2016 a 1 Ebrill 2018** fe wnaethoch chi dalu ffi o £308 i gyflwyno Hawliad Rhan 8 o dan gam 3: | | | |
| | | - y Protocol Cyn Gweithredu ar gyfer Hawliadau Anafiadau Personol Gwerth Isel (Atebolrwydd Cyflogwr ac Atebolrwydd Cyhoeddus); **neu'r** | | | |
| | | - Protocol Cyn Gweithredu ar gyfer Hawliadau Anafiadau Personol Gwerth Isel mewn perthynas â Damweiniau Traffig y Ffordd | | | |
| | | **Os oedd gwerth eich hawliad:** | **Dylech fod wedi talu ffi o:** | | |
| FEE0450 | FEE0202 | yn llai na £300 | £35 | £245 | £273 |
| FEE0450 | FEE0203 | Rhwng £300 a £500 | £50 | £230 | £258 |
| FEE0450 | FEE0204 | Rhwng £500 a £1,000 | £70 | £210 | £238 |
| FEE0450 | FEE0205 | Rhwng £1,000 a £1,500 | £80 | £200 | £228 |
| FEE0450 | FEE0206 | Rhwng £1,500 a £3,000 | £115 | £165 | £193 |
| FEE0450 | FEE0207 | Rhwng £3,000 a £5,000 | £205 | £75 | £103 |